***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 656 (Cy. 146)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Mehefin 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *14 Mehefin 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537(A)(1), (2) a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio

**2.** Yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**3**), yn rheoliad 5, ar ddiwedd paragraff (2) mewnosoder—

"(ff) Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau(**4**)."

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) ac fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) a diwygiwyd is-adran (1)(a)(i) ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2007/3562 (Cy. 312).

(**4**) Mae The Universities and Colleges Admissions Service (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau) yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gofrestru yn Lloegr Rhif 2839815.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

10 Mehefin 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn rhagnodi personau y caniateir i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol iddynt o dan adran 537A(4) o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod is-baragraff newydd (ff) yn rheoliad 5(2) er mwyn ychwanegu at y rhestr ragnodedig o gyrff y caniateir darparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol iddynt (rheoliad 2(2)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.